CLWB CYMRU

GWNEUD EICH CLWB A'N GÊM YN GYNALIADWY

Gyda chynaliadwyedd yn chwarae rôl gynyddol ledled y byd, mewn Pêl Droed mae gennym ni ein rhan ein hunain i'w chwarae wrth gefnogi a helpu i gyrraedd targedau byd-eang.

Er mwyn sicrhau bod ein gweithredoedd yn cyfrannu'n gadarnhaol at fuddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, gall pob clwb, boed yn fawr, bach, gwledig neu drefol chwarae rhan bwysig wrth gymryd camau tuag at ysgwyddo cyfrifoldeb am eu hôl troed hinsawdd.

Mae cynhesu byd-eang yn peryglu ein planed a chenedlaethau'r dyfodol ac mae gan bob sector, gan gynnwys pêl droed, ei ran i'w chwarae wrth weithio tuag at ddyfodol iachach a mwy cynaliadwy. Mae busnesau a sefydliadau ledled y byd yn nodi ffyrdd y gallant ymateb yn gadarnhaol ac ymrwymo i wneud eu rhan wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd. Bydd codi ymwybyddiaeth o'r argyfwng byd-eang, yn ogystal ag amlinellu ffyrdd y gall ein teulu pêl droed gymryd camau cadarnhaol i leihau ein hôl troed carbon, yn cynorthwyo targedau lleol, cenedlaethol a byd-eang ac yn sicrhau bod eich clwb a'n gêm yn gynaliadwy.

Yn gyntaf oll, mae'n bwysig bod clybiau'n dechrau cydnabod sut gallant gael effaith gadarnhaol yn y maes hwn. Bydd gan awdurdodau a chynghorau lleol eu targedau a'u huchelgeisiau lleol eu hunain o ran cynaliadwyedd. Mae'n werth edrych ar gynllun eich ardal leol, a sut gallwch chi chwarae eich rhan yn eich cymuned.

Mae'n haws gweithredu newidiadau llai sy'n fwy realistig i weithio tuag atynt fel clwb i ddechrau, a rhai sy'n gymharol gost-effeithiol i'w cyflawni.

Drwy gyfathrebu â'r gymuned leol a'r awdurdod lleol am yr ardaloedd rydych chi'n ystyried eu targedu yn y clwb, gyda chymorth i gefnogi gweledigaethau a thargedau lleol, a datblygu cefnogaeth hirdymor i'ch cynlluniau.

Drwy arwain y newidiadau hyn yn gadarnhaol a chydnabod y rôl y gall eich clwb ei chwarae wrth newid agweddau tuag at gynaliadwyedd, byddwch yn creu effaith gryfach ar draws y clybiau a sefydliadau a busnesau lleol. Gallai hyn wneud gwahaniaeth sylweddol i ddyfodol cynaliadwyedd.

Plastig Defnydd Sengl

- Ydi eich clwb yn darparu pecyn cit ar ddechrau pob tymor? Ydych chi wedi ystyried ychwanegu potel ddŵr clwb at y pecyn yma? Nid yn unig y gall weithredu fel marchnata da i'ch clwb, ond gall hefyd leihau'r angen am i chwaraewyr a rhieni ddod â phlastigau defnydd sengl i hyfforddiant a gemau. Efallai y bydd cyfle hefyd i stocio poteli dŵr clwb yn eich cae i bobl eu prynu.

- Os na all eich clwb gynnig yr uchod, meddyliwch sut gallech annog rhieni a chwaraewyr i ddod â'u poteli y gellir eu hailddefnyddio eu hunain. Gellid cymell hyn drwy gynnig ail-lenwi am ddim naill ai gan ddefnyddio cyfleuster cegin (os oes gennych chi un) neu ystyried darparu gorsaf ail-lenwi.

Teithio Cynaliadwy

- Ydych chi'n gwybod ble mae'ch aelodau'n byw mewn perthynas â'r clwb, lleoliad (au) hyfforddi / gêm? Efallai y bydd ymarfer / arolwg mapio yn eich helpu i nodi'r pellter y mae'n rhaid i chwaraewyr ei deithio ond hefyd beth yw eu dulliau teithio arferol. Wedyn gall deall hyn eich helpu i nodi dewisiadau eraill fel llwybrau beicio, bws, trên neu dram a allai eu hannog i ystyried sut maen nhw'n teithio i hyfforddiant / gemau. Efallai y bydd cymell dulliau teithio amgen yn cefnogi'ch aelodau i gymryd camau tuag at newid cadarnhaol. Un awgrym o ran cymhelliant yw lleihau cost y ffioedd aelodaeth ar gyfer y tymor canlynol. Drwy annog aelodau i ddefnyddio dull teithio cynaliadwy, fe allech chi gyfateb pob taith i werth, er enghraifft 50c. Felly os yw chwaraewr yn defnyddio dull teithio cynaliadwy ddwywaith yr wythnos am 40 wythnos, gallai arbed £ 40.00 oddi ar ei aelodaeth.

- Er mwyn helpu i annog beicio / defnyddio e-feiciau, gallai'r clwb ystyried creu lle diogel i storio beiciau. Raciau neu lochesi beic fyddai'r ateb mwyaf delfrydol ac maent yn gymharol rad, ond efallai na fydd yr opsiwn hwn yn addas i bob clwb. Un datrysiad llawer symlach fyddai cynnig lle diogel naill ai ar neu ger y cae dan glo / mewn cynhwysydd, gall hwn fod yn safle sy'n wag tra mae'r offer ar y cae neu ystafell newid nad yw'n cael ei defnyddio ac y gellir ei chloi.

- Oes gennych chi orsaf i wefru EV (cerbydau trydan) yn agos at eich lleoliad(au)? Efallai y bydd rhoi gwybod am hyn i'ch aelodau, timau sy'n ymweld a gwylwyr yn gwneud eich clwb yn fwy deniadol iddynt ond mae hefyd yn dangos y rôl rydych chi'n ei chwarae wrth helpu gyda theithio cynaliadwy. Mae sawl gwefan a all eich helpu i ddod o hyd i'ch gorsaf wefru EV agosaf. Peidiwch ag anghofio rhannu hynny ar wefan eich clwb ac mewn gwybodaeth ar ddiwrnod gêm!

WASTE
WASTE
RECYCLING

Gan y Gymuned, ar gyfer y Gymuned

- Pa mor aml mae'ch clwb yn cefnogi busnesau lleol drwy ddefnyddio eu gwasanaethau neu brynu eu cynhyrchion? Mae cefnogi busnes lleol nid yn unig yn helpu i gynorthwyo'r economi leol ond gall hefyd helpu i wneud cyfraniadau cadarnhaol at leihau eich ôl troed carbon. Mae'n bwysig eich bod chi'n gwneud eich ymchwil i unrhyw gyflenwr rydych chi'n ei ddefnyddio. Er y bydd prynu yn lleol yn arwain at fuddion, nid yw bob amser yn golygu bod eu cadwyn gyflenwi yn 'wyrdd'. Gofynnwch gwestiynau - byddwch yn chwilfrydig!

- Er mwyn helpu i nodi pa gwmnïau sy'n lleol i chi, gallwch ddefnyddio cyfeirlyfrau lleol ar-lein neu fel arall, Google Maps. Yn syml, nodwch leoliad / cod post eich clwb yn y platfform a chwilio pa fusnesau sy'n agos ac yn bwysicach fyth pa gynhyrchion a gwasanaethau maen nhw'n eu cynnig.

Rheoli Gwastraff

- Oes digon o finiau gwastraff yn eich lleoliad(au) yn ystod hyfforddiant / gemau? Siaradwch â'ch awdurdod / cyngor lleol neu fuddsoddi mewn biniau rheoli gwastraff deuol i helpu i gefnogi'ch aelodau, cefnogwyr sy'n ymweld a'r cyhoedd i rannu eu gwastraff na ellir ei ailgylchu a'r gwastraff y gellir ei ailgylchu.

- Efallai y bydd y clwb eisiau ystyried sut gall wneud ei ran i gadw man gwyrdd yn rhydd o sbwriel ac nid yn unig gwneud ei arwynebau chwarae'n ddiogel ond hefyd cadw ei gymuned yn edrych yn ddeniadol. Sut gallwch chi wneud hwn yn ddigwyddiad cymunedol, yn ehangach na dim ond y clwb pêl droed? Siaradwch â'ch awdurdod / cyngor lleol oherwydd efallai bod ganddo gynlluniau ar agor lle gallwch chi wneud cais am offer casglu sbwriel i gefnogi gyda'ch digwyddiadau.

Opsiynau Bwyd Amgen

- Fel clwb efallai eich bod yn ffodus o fod â chyfleusterau arlwyo ar y safle sy'n eich galluogi i ddarparu lluniaeth i'ch aelodau. Os felly, efallai bod nawr yn amser da i adolygu'ch bwydlen. Amcangyfrifir bod 1 o bob 5 (20%) o bobl wedi lleihau faint o gig maen nhw'n ei fwyta yn ystod y 12 mis diwethaf (Y Gymdeithas Fegan). Gall lleihau'r cig sy'n cael ei fwyta helpu i leihau ôl troed carbon a nwyon tŷ gwydr ond gallai bwydlen ddiwygiedig hefyd sicrhau bod y clwb yn esblygu ac yn darparu ar gyfer aelodau ag amrywiaeth o ddewisiadau / anghenion dietegol.

- Os nad oes gennych chi gyfleusterau arlwyo ond eich bod yn llogi cwmni arlwyo allanol ar gyfer gemau neu ddigwyddiadau'r clwb, holwch sut maen nhw'n chwarae eu rhan i leihau eu hôl troed carbon. Mae hefyd yn bwysig darganfod sut maen nhw'n darparu ar gyfer gwahanol ddewisiadau / anghenion dietegol.

Cyfathrebu ac Ymgysylltu Digidol

- Ydych chi wedi ystyried sut gall y clwb ddefnyddio dulliau ar-lein / digidol i gyfathrebu a rhannu gwybodaeth bwysig? Gall digideiddio rhai o'ch dogfennau papur traddodiadol fel llawlyfrau a ffurflenni cofrestru nid yn unig arbed costau argraffu a dosbarthu ond gall hefyd arbed amser gwirfoddolwyr.

- Ystyriwch sut gallwch chi gysylltu ag aelodau o'ch cymuned, busnesau a sefydliadau drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn enwedig o ran hysbysebu eich digwyddiadau. Gall posteri a thaflenni fod o ddefnydd o hyd a helpu i gyfathrebu â chynulleidfaoedd nad ydyn nhw ar gyfryngau cymdeithasol. Fodd bynnag, gall hysbyseb ddigidol helpu'r clwb nid yn unig i rannu gwybodaeth yn gyflymach ar raddfa lawer mwy, ond mae hefyd yn lleihau'r angen am bapur, gan gyfrannu at leihau datgoedwigo.

Cit ac Offer Ailddefnyddio ac Ailgylchu

- Sut mae'ch clwb yn ailgylchu ac ailddefnyddio cit ac offer? Nid â sbwriel ac ailgylchu yn unig mae rheoli gwastraff yn ymwneud, mae hefyd yn ymwneud â chit ac offer. Mae cit newydd fel arfer yn nodi dechrau tymor newydd neu ddechrau cytundeb partneriaeth / nawdd newydd. Mae hefyd yn dangos bod cit wedi gwisgo'n sylweddol a bod angen cit newydd. Fodd bynnag, mae diwylliant 'ffasiwn cyflym' yn bodoli ac mae eitemau o ddillad, gan gynnwys citiau pêl droed, yn cael eu newid yn barhaus, er eu bod mewn cyflwr da. Ystyriwch sut gallech chi wisgo cit y clwb am sawl tymor. Bydd hyn nid yn unig yn cefnogi i leihau ôl troed carbon eich clwb, ond hefyd gallai helpu'r clwb i arbed symiau sylweddol o arian.

- Gall ffasiwn cyflym a phlant yn tyfu olygu bod esgidiau pêl droed a phadiau crimog yn dod yn eitemau sy'n cael eu prynu'n barhaus. Gallai'r clwb ystyried sefydlu ei gynllun ailgylchu ei hun i atal eitemau rhag mynd i safleoedd tirlenwi. Gallai'r gwaith o ailddosbarthu'r eitemau sy'n cael eu casglu naill ai fod i gefnogi teuluoedd yn eich clwb a all fod yn ei chael yn anodd yn ariannol, neu fel arall gellid casglu'r eitemau hyn ar ran elusennau sydd wedyn yn ailgylchu ac yn ailddefnyddio'r eitemau hyn yn lleol, yn genedlaethol neu'n fyd-eang.

- Mae'r rhan fwyaf o'n dillad, gan gynnwys citiau pêl droed, wedi'u gwneud fel arfer o ffabrigau sy'n cynnwys deunyddiau plastig sy'n effeithio'n negyddol ar argyfwng llygredd plastig y cefnforoedd. Gyda channoedd o gitiau clwb yn cael eu prynu bob tymor, efallai y bydd clybiau eisiau dechrau edrych ar yr hyn mae eu cyflenwyr yn ei wneud i helpu i leihau eu hôl troed carbon, ond hefyd pa ddilladau sy'n cael eu gwneud o ddeunyddiau y mae posib eu hailgylchu.

- Os oes angen i'r clwb brynu cit ac offer newydd, gall swmp-archebu popeth sydd arnoch ei angen ar un tro helpu i arbed ar becynnu, allyriadau CO2 ar gludiant a chost.

Esbonio'r Derminoleg

Cynhesu byd-eang = cynnydd graddol yn nhymheredd y Ddaear

Plastigau defnydd sengl = unrhyw eitemau plastig sydd wedi'u cynllunio i gael eu defnyddio neu sy'n cael eu defnyddio unwaith yn unig cyn iddynt gael eu hailgylchu neu eu taflu

Teithio cynaliadwy = lleihau teithio sy'n cael effaith negyddol ar yr amgylchedd

Allyriadau Co2 = yn dod o losgi tanwydd ffosil (olew, glo neu nwy)

Llygredd plastig yn y cefnforoedd = gwrthrychau a gronynnau plastig yn cronni sy'n cael effaith uniongyrchol a marwol ar fywyd gwyllt y cefnforoedd a mamaliaid morol

Gwastraff na ellir ei ailgylchu = eitemau na ellir eu hailddefnyddio neu roi pwrpas newydd iddynt

Ailgylchu = proses lle mae gwastraff yn cael ei droi'n eitemau newydd neu eitemau â phwrpas newydd